ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Diogelu ym Mhadarn Sant

Daw Athrofa Padarn Sant yn cwympo o dan Bolisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i ddiogelu ac mae'n rhan ganolog o'i bywyd, gweinidogaeth a chenhadaeth. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut mae Athrofa Padarn Sant yn gweithredu polisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru pan mae pryderon diogelu yn codi.

Tîm Diogelu'r Eglwys yng Nghymru

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cyflogi tîm o arbenigwyr er mwyn rhoi cyngor diogelu, hyfforddiant a chymorth. Gall unrhyw un sydd â chyswllt â Phadarn Sant gysylltu â'r Tîm Diogelu, a gellir dod o hyd i wybodaeth ar sut i gysylltu â nhw fan hyn. Mae'r tîm yn brofiadol iawn ac wedi arfer ag ymdrin â phryderon mewn modd sensitif. Caiff y Tîm Diogelu eu gwahodd yn rheolaidd i gyfarfodydd staff i roi hyfforddiant i staff ac i ddatblygu dealltwriaeth yn ogystal â datblygu perthynas â staff.

Rôl Arweinydd Diogelu Athrofa Padarn Sant

Rôl yr Arweinydd Diogelu ym Mhadarn Sant yw:

- Sicrhau fod y polisi a'r prosesau yn cael eu dilyn
- Cyfeirio
- Cadw cofnod o ddigwyddiadau

Nid yw rhoi cyngor diogelu yn rhan o'r rôl.

Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelu

Mae Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Os ydych yn credu bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol dylai adrodd hynny i'r heddlu yn syth. Os ydych yn meddwl bod unigolyn yn wynebu risg o niwed ond ddim mewn perygl uniongyrchol cysylltwch ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Dylai hefyd rhoi gwybod i dîm diogelu'r Eglwys yng Nghymru.

Dylid cysylltu â thîm diogelu'r Eglwys yng Nghymru cyn gynted â phosib os:

1. Ydych yn amau, mater diogelu:
   - o fewn lleoliad Eglwys yng Nghymru ydyw, gan gynnwys gwasanaethau eglwys a gweithgareddau canol wythnos ym Mhadarn Sant
   - ydyw yn cael ei gyflawni gan unrhyw un mewn swydd gyda'r Eglwys yng Nghymru neu yn mynychu digwyddiadau'r Eglwys yng Nghymru gan gynnwys gweithgareddau Padarn Sant.
2. yw unigolyn yn datgelu camdriniaeth â chi yn eich swydd yn yr Eglwys yng Nghymru neu mewn lleoliad Eglwysig (gan gynnwys Athrofa Padarn Sant)
3. ydych yn credu eich bod yn ddioddefwr camdrin gan unrhyw unigolyn yn yr Eglwys.

Gall deimlo fel cam mawr i siarad â'r tîm diogelu am fater posibl. Serch hynny, peidiwch ag oedi cyn siarad â nhw, hyd yn oed os nad ydych yn sicr os yw'n fater diogelu. Os oes angen cymorth i siarad â'r Tîm Diogelu siaradwch â'ch rheolwr, tiwtor personol, neu Arweinydd Diogelu. Mae'r Tîm Diogelu yn brofiadol iawn ac yn medru ymdrin â materion a sensitifrwydd. Byddan nhw'n medru asesu os ydy'r mater yn fater diogelu a sut i ymdrin ag ef, ac os oes angen, yn ei hadrodd i'r awdurdodau perthnasol a rhoi cyngor a chymorth.

Fel rhan integredig o'r Eglwys yng Nghymru, bydd unrhyw weithredu ar fater diogelu sy'n digwydd ym Mhadarn Sant yn cael ei ymchwilio gan Dîm Diogelu'r Eglwys yng Nghymru ac mi fydd Athrofa Padarn Sant yn gwneud camau fel y cyfarwyddir ganddynt.

Unrhyw ddatgeliad a wneir i staff Athrofa Padarn Sant (gan gynnwys tiwtoriaid, Arweinwyr Celloedd Ffurfiannol, Goruchwylwyr Lleoliad, Hwyluswyr Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd a chyfrannwyr eraill)

Gall y berthynas sydd gan ddysgwyr a staff Athrofa Padarn Sant gynnig cymorth bugeiliol a lle diogel i ddysgwyr i fod yn agored ac onest. I rai gall y daith ffurfiant ddod ag effeithiau digwyddiadau o'r gorffennol i'r arwyneb. Nid yw'n anghyffredin felly i bobl siarad am brofiadau anodd o'r gorffennol gall arwain at ddatgeliad. Mae'n angenrheidiol bod unrhyw faterion diogelu cyfoes yn cael eu hadrodd i'r tîm diogelu. Mewn achos o gamdrin hanesyddol, dylai'r aelod staff adrodd hyn i'r tîm diogelu, hyd yn oed os nad yw'r person hwnnw yn peri risg i'r unigolyn bellach, gan ei fod yn bosib eu bod nhw dal yn peri risg i eraill.

Dylid dilyn yr un weithdrefn ac os oedd aelod o staff yn gwneud datgeliad o gamdrin i aelod o staff arall.

Rhoi gwybod i Arweinydd Diogelu Athrofa Padarn Sant

Dylai pob pryder ynghylch diogelu cael ei gofnodi gan Arweinydd Diogelu, Athrofa Padarn Sant. Nid oes angen i'r Arweinydd Diogelu wybod enw'r person sydd yn gwneud y datgeliad, na manylion y pryder dogelu. Y wybodaeth sydd ei hangen cynnwys yw categori'r dysgwr sydd wedi gwneud datgeliad, os ydy'r camdrin honedig wedi digwydd tra bod y dysgwr ynghlwm a gweithgareddau Athrofa Padarn Sant, pryd yr adroddwyd at y Tîm Diogelu, ac os yw'n gyfoes neu'n hanesyddol. Mae hyn yn bwysig, er mwyn i Athrofa Padarn Sant gael darlun cywir o bryderon diogelu o fewn ei weithgaredd. Nid oes angen rhannu enwau, manylion camdrin, neu unrhyw wybodaeth arall ag Arweinydd Diogelu Athrofa Padarn Sant.

Cefnogaeth

Ffocws y ddogfen hon yw beth allai fod gofyn i chi wneud mewn perthynas â diogelu. Rydym hefyd yn cydnabod fod clywed am gamdriniaeth neu orfod adrodd pryderon yn gallu fod yn annymunol. Hoffwn eich sicrhau y bydd Athrofa Padarn Sant a'r Tim Diogelu yn rhoi cefnogaeth i chi.

Mwy o wybodaeth

Mae yna wybodaeth helaeth ar Ddiogelu ar wefan yr Eglwys yng Nghymru yma.

Gwybodaeth Arweinydd Diogelu Athrofa Padarn Sant

Enw:	Kathryn Delderfield
E-bost:	Kathryn.delderfield@stpadarns.ac.uk
Ffôn:	07388994732